CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

**Cymdeithas Bob Owen**

Tâl aelodaeth
£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

**SWYDDOGION**

Llywydd:
Dr. E D. Jones
Cadeirydd:
D. Tecwyn Lloyd
Ysgrifennydd:
Richard H. Lewis
40 Maes Ceiro,
Bow Street, Dyfed.
(Aberystwyth 828102)
Trysorydd a Threfnydd Busnes:
John Dilwyn Williams,
Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,
Pwllheli, Gwynedd.
(Pwllheli 613480)
Golygydd:
John Roberts Williams,
18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.
(Caernarfon 3593)

**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## MOELWYNFAB

*RWY'N chwilio am CANIADAU MOELWYNFAB, sef Robert Stephen, nai i Edward Stephen, Tanymarian. Awgrymodd y cyfaill Steffan ab Owain y gallai'r gyfrol fod wedi ei chyhoeddi yn 70au y ganrif ddiwethaf.*

*Gwn am rai unawdau ac anthemau a gyfansoddwyd ganddo ond dywedir wrthyf iddo gyhoeddi un gyfrol o farddoniaeth. A allai rhywun fy ngoleuo? Byddwn ddiolchgar.*
*Meredydd Evans, Afallon, Cwm Ystwyth, Aberystwyth.*

## RHODDION

£50: John Roberts Williams, Llanrug.
£17: Miss M Williams, Caerdydd.
£10: E. Parry, Bangor.
£7: Rh ap Rhisiart, Garndolbenmaen; J.T. Jenkins, Llangeler.
£5: Miss E.N. Williams, Porthaethwy; G. Roberts, Clynnog Fawr; Mrs M. Roberts, Llandegla; T. Huws, Cemaes.
£3: G. Jones, Gwauncaegurwen.
£2: D. Jones, Cricieth; Mrs A. Jones, Garndolbenmaen; W.R. Howells, Cwmllynfell; Mrs E.E. Owen, Dolgarrog;
D. Davies, Wrecsam; Miss K.O. Prtichard, Gilfach Goch; Miss O. Jones, Mynytho; E.E. Jones, Penygroes; G.E. Jones, Blaenau Ffestiniog; E.F. Roberts, Porthmadog; H. Clwyd, Rhuthun; I. Jones, Gwenfo; M.G. Williams, Dolgellau; O. Llywelyn, Llanrug; Parch E.W. Jones, Llangefni; Miss L. Hughes, Llanfairfechan;
£1: E. Jones, Llanbedr Pont Steffan; N.W. Powell, Nantmor.

# Mwy am y Telynor Dall

Gan
**DAFYDD WYN WILIAM**

YN EI lyfryn *Y Tri Thelynor* (d.d.) tt.27-46 dangosodd J. Lloyd Williams mai bylchog yw hanes John Parry (c 1710-82), y telynor dall. Ceisiaf drwy hyn o ysgrif lenwi mymryn ar un neu ddau o'r bylchau.

Yn 1784 fe gyhoeddwyd cofnod Edward Jones (1752-1824) am yr ymryson canu'r delyn a fu rhwng Siôn Parry ddall a Huw Siôn Prys o Landderfel. Nodir mai Ffowc Jones y trwmpedwr oedd y beirniad. Y mae'n bwysig ceisio dyddio'r ymryson hwn. 'Roedd Ffowc Jones yn fyw yn ystod y blynyddoedd 1728-66.

Rywdro yn 1728, a hwythau ill dau yn feddw gaib yn Aberconwy, cyfarfu Lewis Morris (1701-65) ac Elis Meirion (? Elis Roberts) â Ffowc Jones delynor. Ymroes y ddau i wawdio'r telynor. Drannoeth, ac yntau wedi sobri, fe luniodd Lewis Morris chwe englyn i ddesiyf maddeuant y telynor.

Ymddengys mai gŵr ifanc oedd Ffowc Jones ar y pryd ac awgrymaf iddo gael ei eni tua 1708. Golyga hyn ei fod tua'r un oed â'r telynor dall. Cynhaliwyd yr ymryson, mi gredaf, tua 1730.

Penodwyd Ffowc Jones yn 'tide-waiter' ym Môn cyn diwedd 1749 a bu'n byw yn Rhos Fadog gerllaw cartref y Morrisiaid. Amheuaf ai gŵr o Fôn ydoedd. Ac yntau yn delynor, yn athro telyn, yn feirniad, yn ffidlwr, yn drwmpedwr a 'Phen Cerddor Cymru' ni synnwn i ddim iddo dreulio peth amser yn Llundain pan oedd yn ifanc.

O'r hyn lleiaf i'r ddinas honno yr aeth ei frawd John Jones pan benodwyd ef yn "Musician in Ordinary" i'r brenin, 1 Tachwedd 1723. Bu farw yn 1757. Gwelir ei enw "John Jones, King's Houshold Trumpeter" ymhlith tanysgrifwyr *"Plans of Harbours..."* (1748).

* * *

YN AWST 1756 fe anfonwyd Marged Owen (ganed hi yn 1742), aeres ifanc stadau Penrhos a Bodewryd ym Môn, i Lundain gan ei mam weddw i gael yr addysg orau posibl. Yn y man fe'i dilynwyd i'r brifddinas gan ei mam.

Tra oedd yn byw yn Kensington fe gadwodd y fam gyfrif o'r holl arian a wariwyd ganddi. Y mae ei llyfr cofnodion am y cyfnod 1756-64 ynghadw heddiw yn Archifdy Môn.

Nid arbedodd y fam ddim wrth geisio hybu addysg gerddorol Marged, neu Pegi fel y gelwid hi. Credaf mai un o athrawon cerdd Pegi oedd Mr Burney. Derbyniodd hwnnw daliadau o bedair gini (9 Mawrth 1761), chwe gini (8 Gorffennaf 1761), saith gini (9-10 Gorffennaf 1761) a naw gini (27 Gorffennaf 1762). Credaf hefyd mai am hyfforddi Pegi y derbyniodd 'Mr Cook Dancing Master' naw gini (17 Mawrth 1761).

Y mae'r cofnod ar gyfer 7 Mai 1762 yn fwy penodol 'Mr Shemcock for teaching Peggy the English harp'. Dim ond pum swllt a gafodd yr athro telyn hwn am ei drafferth!

Prynasid y delyn i Pegi dair wythnos ynghynt am £2.12s.6ch ac iddi hi hefyd, mi gredaf, y prynwyd 'Harpsichord' newydd sbon am bymtheg gini.

Heblaw'r addysg gerddorol fe roddwyd gwersi ysgrifennu i Pegi, aethpwyd â hi i'r theatr a gorfyddwyd iddi eistedd yn llonydd tra bu 'Mr Renalls' yn paentio ei llun. Cafodd yr arlunydd enwog ddeunaw gini am ei waith.

* * *

NODDID telynor, Siôn, gan deulu Penrhos ac aeth gyda'r teulu i Lundain. Tra oedd Pegi, merch ei feistres, yn derbyn hyfforddiant cerddorol fe welwyd yn dda i wahodd John Parry i roi gwersi telyn iddo ef. Wele dri chofnod am y gwersi hyn:

*9 Mehefin 1761 John Entran to Parry ye harpr 1.3.0*
*9 Gorffennaf 1761 for Johns larning the Harp a Months of Parry 1.1.0*
*15 Mehefin 1762 paid Mr Parry the Harper for Teatching John 3.3.0*

Telid am y gwersi gan fam Pegi a diau mai hi a brynodd delyn i Siôn.

Yr oedd Siôn delynor yn Llundain 15 Mawrth 1763 a pharhaodd ei gysylltiad â theulu bonheddig Penrhos fel y dengys pum englyn Robert Hughes (1744-85) i geisio pum swllt i brynu tannau i delyn wagfol Siôn Delynor gan y Fonesig Marged Owen o Benrhos. Erbyn hyn yr oedd Pegi wedi priodi.

Dengys y manylion hyn fel yr enillai John Parry ddall ei fywoliaeth yn rhoi gwersi telyn ysbeidiol i delynor alltud o Fôn yn ystod y flwyddyn Mehefin 1761 hyd Mehefin 1762. A bwrw iddo gael rhagor o ddisgyblion y mae'n amheus gennyf a frysiodd yn ôl i Gymru.

Tanysgrifiodd John Parry delynor at *Ddiddanwch Teuluaidd* 1763. Preswyliai ar y pryd yn Market Street, Llundain.

*AR WERTH*
*Mae teulu gwr a fu'n aelod o G.B.O. yn awyddus i werthu'r eitemau canlynol, a rhoi'r cyfle cyntaf i aelodau presennol. Cysyllter yn gyntaf â Bangor (0248) 362752 (Cludiad ar yr eitemau yn ychwanegol).*
*1. Munudau segur: sef caneuon newyddion ... (R.J. Derfel; Caernarfon d/d) £1.*
*2. Gweithiau barddonol Ieuan Gwynedd (gol. T. Roberts; Dolgellau d/d) £2.*
*3. Gwaith Barddonol (Hwfa Môn; Llanerchymedd 1883) £1.*
*4. The Life and Opinions of Robert Roberts, A Wandering Scholar ... (gol. J.H. Davies; ail arg. 1923) £12.*
*5. Barddoniaeth neu Brydyddiaeth gan Wiliam Midleton (gol. G.J. Williams; Caerdydd 1930) £3.*
*6. Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru (cyfres o ddarlithiau gan amryw; Caerdydd 1950) £2.50.*
*7. Rhagom i Ryddid (Gwynfor Evans; Bangor 1964) £1.50.*
*8. Rhifynnau cynnar o'r Casglwr. £2 yr un.*
*9. Llyfr y Resolution ... (John Davies o Fallwyd; Caernarfon 1885) £3.*
*10. Thomas Francis Roberts ... (David Williams; Caerydd 1961) £1.*
*11. Y Ddeddf Uno 1536 ... (gol. W. Ambrose Bebb, Caernarfon 1937) £2.*
*12. 33 o rifynnau o'r Glannau (at wasanaeth Cymry Glannau Mersi)(1944-1948), wedi eu rhwymo mewn un gyfrol. £5.*
*13. Llawysgrif Richard Morris o Gerddi (gol. T.H. Parry-Williams; Caerdydd 1931) £5.*
*14. Ar Wib yn Nenmarc (Dafydd Jenkins; Y Clwb Llyfrau Cymraeg 1951) £1.*

*YN EISIAU*
*1. Amlen Cyhoeddiad Diwrnod Cyntaf dathliad 400 mlwyddiant cyfieithu'r Beibl - fersiwn Eglwys y Plwyf, Llanrhaeadr-ym-Mochnant.*
*2. Almanaciau Caergybi 1891 hyd 1903, 1932, 1934, 1952, 1954 (yr olaf?)*
*Ted Huws, Yr Ardd, Cemaes, Ynys Môn.*

*AR WERTH*
*'Y Cwtta Cyfarwydd'*
*'Iolo MSS'*
*Ted Huws, Yr Ardd, Cemaes, Ynys Môn.*

*YN EISIAU*
*Llyfrau diwinyddol safonol yn Saesneg neu Gymraeg*
*Cysyllter â Euros W. Jones, Llangefni 723240.*

**Gwasg Gwynedd**
Cibyn, Caernarfon Gwynedd
Ffôn: Caernarfon (0286) 4486
Argraffwyr a chyhoeddwyr